# Hyfforddiant Teithio

***Mae'r astudiaethau achos canlynol yn disgrifio sut mae ein Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi pobl i ddod yn fwy annibynnol drwy hyfforddiant teithio.***


**Ian, Cysylltwr Cymunedol**

*"Un o'r sesiynau rwy'n eu cefnogi yw hyfforddiant teithio. Er y gall hyfforddiant teithio ymddangos yn weithgaredd araf ac undonog, dros gyfnod o ychydig fisoedd, rydym wedi llwyddo i helpu pobl i ddysgu llawer.*



*Gweithiodd hyfforddiant teithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y Nadolig, a bu'n boblogaidd ymhlith defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth i ble yr hoffent fynd ac a oes gan unrhyw un anrhegion Nadolig y mae angen eu prynu ar gyfer ffrindiau a theulu.*

*Gan ddefnyddio'u cerdyn bws cydymaith, mae defnyddwyr gwasanaeth wedi dysgu sut i gyflwyno'r cerdyn i'r gyrrwr ac os oes angen, roi'r cardiau ar y darllenydd electronig. Mae rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth wedi dechrau darllen yr amserlen deithio awtomatig ac yn helpu i benderfynu pa fws y mae angen i ni deithio arno.*




*Efallai nad yw hyn yn ymddangos fel cyflawniad mawr, ond i rai pobl, mae'n cynnig profiad hollol newydd i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac mae'n weithgaredd y gellir ei ddysgu a'i ddefnyddio mewn sefyllfaoedd eraill."*

**Rhiannon, Cysylltwr Cymunedol**

*"Rwy'n cefnogi sesiwn hyfforddiant teithio lle'r eir ati i annog unigolion i gynllunio llwybr i Abertawe ac yn ôl, a chânt eu hannog hefyd i benderfynu lle'r hoffent fynd i gael cinio.*






*Mae canlyniadau cadarnhaol a phosib yn cynnwys unigolion yn gallu teithio'n annibynnol yn y dyfodol, ac yn gallu archebu eu cinio'u hunain gydag ychydig iawn o gefnogaeth neu ddim o gwbl. Mae'r sesiynau'n mynd yn dda iawn, a cheir arwyddion clir bod pobl yn mwynhau ac yn magu hyder.*

*Mae un defnyddiwr gwasanaeth bellach yn archebu ac yn talu am ei fwyd a'i ddiod ei hun heb fawr ddim cefnogaeth. Mae hyn yn ddatblygiad enfawr i'r defnyddiwr gwasanaeth gan fod yr unigolyn o'r blaen yn amharod i archebu ei fwyd, heblaw am dalu amdano."*